CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

national museum cardiff amgueddfa genedlaethol caerdydd


WNO WELSH NATIONAL OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

Arts & Humanities Research Council

# Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf: Gwrthdaro a Chreadigrwydd

*Cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus mewn cydweithrediad, Hydref–Tachwedd 2016*

@cardiffuniwwi www.cardiff.ac.uk/commemorating-wwi-conflict-and-creativity



Delwedd: 'Battle of the Somme' (Muirhead Bone) a atgynhyrchir trwy ganiatad Casgliadau ac Archifau Arbennig Prifysgol Caerdydd.
To view an English version of this leaflet, please visit our website.

## Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf: Gwrthdaro a Chreadigrwydd

Mae 2016 yn nodi 100 mlynedd ers Brwydr y Somme. Mae Canolfan Ymchwil Rhyngddisgyblaethol Opera a Drama Prifysgol Caerdydd (CIRO) yn coffau'r digwyddiad hwn trwy ymchwilio i themau gwrthdaro a chreadigrwydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Sut mae'r Rhyfel Mawr yn cael ei ddarlunio mewn hanes, cerddoriaeth, llenyddiaeth a'r cyfryngau gweledol? A beth yw'r waddol heddiw yma yng Nghymru a thu hwnt?

Mewn digwyddiadau cyhoeddus ac mewn cydweithrediad â Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd, cynhelir digwyddiadau cyhoeddus dan gyfarwyddyd ysgolheigion blaengar o sawl Ysgol academaidd o Brifysgol Caerdydd, gan gynnwys Cerddoriaeth, Ieithoedd Modern, Cymraeg, Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol ynghyd â sefydliadau cyfatebol o dramor.

*Cyllidir trwy Gymrodoriaeth Cysylltiadau Diwylliannol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC).*

**Hydref -Tachwedd — Cyfres o ddarlithiau awr ginio dydd Gwener**
*Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd, 1.05yp. Mynediad am ddim. Nid oes angen tocyn.*

- 14 Hydref – 'Reading the Body Politic: The Experience of the Great War in the Portuguese press, 1916-18' (Dr Rhian Atkin)
- 21 Hydref – 'The Great War and Anti-German Propaganda in Music' (Dr Monika Hennemann)
- 4 Tachwedd – 'Propaganda and recruitment in WW1' (Dr John Jewell)

**11–12 Tachwedd — International Artistic Creation during WWI,** Symposiwm mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac wedi ei leoli yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd
Ysgolheigion rhyngwladol o'r DU a Phrifysgolion Leuven, Heidelberg a Brown yn trafod y Rhyfel Byd Cyntaf mewn cerddoriaeth, llenyddiaeth, diwylliannau gweledol, hanes, athroniaeth a seicoleg.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan.

**11 Tachwedd — Sir Thomas Allen,**
Datganiad o ganeuon o'r Rhyfel Byd Cyntaf gan y bariton byd enwog. Cyfeilydd Caroline Dowdle.
*Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd, 7yh. Tocynnau: £10, £8 (consesiynau). Archebwch trwy www.ticketsource.co.uk*

Am fwy o wybodaeth ewch i **concerts.cardiff.ac.uk**

**12 Tachwedd — Composed Scenes from the First World War,** Datganiad piano gan Iwan Llewelyn-Jones
*Theatr Reardon Smith, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd, 1.05yp. Mynediad am ddim. Archebwch docyn trwy www.ticketsource.co.uk.*

Am fwy o wybodaeth ewch i **concerts.cardiff.ac.uk**

**13 Tachwedd — Y Rhyfel Byd Cyntaf – Sgyrsiau yn Gymraeg**
*Yr Hen Lyfrgell, 12yp. Mynediad am ddim. Nid oes angen tocyn.*

- "Eilun Coll": Eluned Morgan, O. M. Edwards a heddychwyr *Y Deyrnas*' (Prof E. Wyn James)
- '"Pacifist â'r pwyslais ar y fist": T. Gwynn Jones a'r Rhyfel Mawr' (Dr Llŷr Lewis)

Am fwy o wybodaeth ewch i **cardiff.ac.uk/welsh/events**

**13 Tachwedd — Cerddorfa Symffoni Prifysgol Caerdydd, Ffilm100Somme: *The Battle of the Somme***
*Neuadd Dewi Sant, 2yp. Tocynnau: £8, neu £10 am ddau. Archebwch trwy www.stdavidshallcardiff.co.uk.*

Ymunwch â ni ar Sul y Cofio i gofio'r rhai a fu farw ym Mrwydr y Somme. Bydd y prynhawn yn dechrau gyda thrafodaeth gyda Dr John Jewell a Dr Toby Thacker am bropaganda a'r frwydr, a daw i ben drwy ddangos ffilm ddistaw'r Imperial War Museum o 1916 gan Geoffrey Malins a J B McDowell, gyda chyfeiliant byw gan Gerddorfa Symffoni Prifysgol Caerdydd. Sgôr (2006) gan Laura Rossi.

Hefyd, bydd yno arddangosfa naid o gasgliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf o Gasgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd **@CUSpecialColls**

Somme 100 FILM — FABER MUSIC

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND — First World War Centenary LED BY IWM

**13 Tachwedd — O Ryfel i Heddwch: Cerddoriaeth Cymodi a Gobaith**
*St John Street, Caerdydd, 6yp. Mynediad am ddim, croeso i bawb.*

Bydd Côr Siambr Prifysgol Caerdydd yn ymuno â'r Parchedig Canon Dr Sarah Rowland Jones a'r gynulleidfa o Blwyf Dinesig Ioan Fedyddiwr ar Sul y Cofio ar gyfer gwasanaeth coffa gyda gweddi, cerddoriaeth a darlleniadau.

**Digwyddiadau am y Rhyfel Byd Cyntaf a gynhelir cyn bo hir ym Mhrifysgol Caerdydd:**

**19-21 Ebrill 2017 — Cynhadledd Canmlwyddiant Edward Thomas**
Bydd y digwyddiad hwn yn nodi canmlwyddiant marwolaeth y bardd a'r awdur natur Edward Thomas a laddwyd ym Mrwydr Arras adeg y Pasg 1917. Cynhelir y gynhadledd fawr hon ym Mhrifysgol Caerdydd, lle cedwir casgliad pwysig o lawysgrifau a llythyrau Thomas. Cewch ragor o wybodaeth yn **edwardthomas100.wordpress.com**

*Bydd digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu cynnal rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2017 i nodi canmlwyddiant Brwydr Passchendaele.*